# Adolygiad o Leoedd Ysgolion Uwchradd
**(Hydref 2020)**




## Cefndir

Fel rhan o adolygiad parhaol y Cyngor o’r cyflenwad lleoedd ysgol a’r galw amdanynt, roedd angen cynnal adolygiad o leoedd ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg.

Mae carfannau dalgylch blwyddyn 6 mawr yn ysgolion y Cyngor a fydd yn symud ymlaen i'r sector uwchradd dros y pedair blynedd nesaf. Bydd hyn yn rhoi pwysau ar y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y Fro ac yn enwedig ar gyfer ardal y Barri. Mae byw o fewn dalgylch ysgol yn flaenoriaeth uchel ar gyfer mynediad i addysg uwchradd ar ôl cael gwared ar y system ysgolion bwydo ym mis Medi 2020. Disgwylir i'r carfannau mawr leihau o 2024/25 ymlaen. Bydd carfannau Blwyddyn 6 ar gyfer ysgolion Enwadol a chyfrwng Cymraeg yn bodloni’r galw yn y dyfodol ac nid ydynt wedi’u cynnwys yn yr adolygiad hwn o addysg uwchradd, ynghyd ag Ysgol Stanwell sydd ar hyn o bryd yn gweithredu system ysgolion bwydo ar gyfer mynediad i addysg uwchradd.

Er mwyn rheoli'r galw yn y dyfodol am leoedd mewn ysgolion uwchradd wrth dderbyn disgyblion i Flwyddyn 7, mae'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd dalgylchoedd a threfniadau derbyn er mwyn rheoli'r galw yn y tymor byr.

**Dalgylchoedd**

Mae dalgylch ysgol yn ardal ddaearyddol ddiffiniedig o gyfeiriadau sydd wedi’i llunio i sicrhau bod pob ysgol yn yr ardal yn cael nifer teg o ddisgyblion, lle mae plant yn gymwys i fynd i ysgol leol. Caiff dalgylchoedd eu defnyddio at y dibenion canlynol:

- Rhoi syniad i rieni o ba yw eu hysgol leol.
- Helpu ysgolion i nodi pa gymunedau maen nhw’n eu gwasanaethu.
- Blaenoriaethu derbyniadau i ysgolion pan fo mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.

- Fel dull cynllunio i roi’r gallu i’r Awdurdod gyflawni’r dyletswyddau sydd arno i ragfynegi’r galw am addysg yn yr ardal a chynllunio er mwyn ateb y galw hwn.
- Fel elfen o bolisi trafnidiaeth i hwyluso trefnu trafnidiaeth ysgol a rheoli costau.

Nid yw dalgylchoedd yn atal rhiant rhag mynegi dewis am ysgol benodol os nad yw’n byw yn nalgylch yr ysgol honno. Caiff rhieni nodi unrhyw ysgol fel dewis. Rhoddir lleoedd yn ôl y meini prawf gordanysgrifio cyhoeddedig.

**Nodau’r adolygiad**

- Adolygu'r galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd er mwyn sicrhau bod lle i holl blant y Fro mewn ysgol uwchradd yn y dyfodol.
- Hyrwyddo mynediad teg i leoedd ysgol.

**Pam rydym yn cynnal adolygiad?**

Disgwylir i garfanau Blwyddyn 6 mawr bontio i'r sector uwchradd o 2021 ymlaen gan roi pwysau ar y galw yn y dyfodol am leoedd mewn ysgolion uwchradd

- Mae’r Cyngor wedi newid o system ysgolion bwydo i system dalgylchoedd ar gyfer mynediad i addysg uwchradd o fis Medi 2020, gan flaenoriaethu lleoedd i’r rhai sy’n byw o fewn dalgylch.
- Gall mwy o geisiadau ddod i law yn y dalgylch na nifer y lleoedd sydd ar gael. .
- Mae nifer o ddisgyblion o'r tu allan i ffin yr awdurdod yn ennill lleoedd mewn ysgolion uwchradd y Fro dros ddisgyblion y Fro ar sail agosrwydd h.y. pellter o'r cartref i'r ysgol. Mae rhannau o Gaerdydd a Rhondda Cynon Taf yn agos yn ddaearyddol at rai o ysgolion y Fro. Gall hyn gael effaith andwyol ar rai o rieni'r Fro wrth fynegi dewis am ysgolion.
- Mae sefydlu ysgolion cymysg yn ardal y Barri wedi newid y galw gan rieni yn ardal y Barri.
- Mae datblygiadau tai sylweddol a datblygiadau tai eraill yn effeithio ar niferoedd disgyblion.
- Mae’r Cyngor wedi gwneud gwaith helaeth dros y 10 mlynedd diwethaf i ailfodelu ysgolion uwchradd ac adeiladu rhai newydd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos dewis rhieni yn ysgolion uwchradd Bro Morgannwg.

| Ysgol | Y nifer ar y Gofrestr | | Y nifer sy’n byw yn nalgylch yr ysgol | Y nifer sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ond yn byw ym Mro Morgannwg | Y nifer sy’n byw y tu allan i Fro Morgannwg |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Bont-faen | 1558 | | 972 (62%) | 268 (17%) | 318 (20%) |
| Llanilltud Fawr | 1020 | | 789 (77%) | 221 (22%) | 10 (1%) |
| Pencoedtre | 1018 | | 755 (74%) | 247 (24%) | 16 (2%) |
| Sant Cyres | 1218 | | 607 (50%) | 255 (21%) | 356 (29%) |
| Stanwell | Dd/B | | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Sant Richard Gwyn | 789 | | 751 (95%) | 0 | 38 (5%) |
| Whitmore | 1073 | | 657 (61%) | 408 (38%) | 8 (1%) |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 1089 | | 1075 (99%) | 0 | 14 (1%) |
| **Cyfanswm** | 7765 | | 5606 (72%) | 1399 (18%) | 760 (10%) |

Mae cyfanswm o 760 (10%) o ddisgyblion yn mynychu ysgolion uwchradd y Fro er eu bod yn byw y tu allan i ardal ffin yr awdurdod. Mae'r disgyblion hyn yn mynychu ysgolion y Bont-faen a St Cyres yn bennaf oherwydd bod eu dalgylchoedd yn ffinio ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill. O ganlyniad i'r cynnydd ym mhoblogaeth ysgolion cynradd Bro Morgannwg, mae'r pwysau am leoedd mewn ysgolion uwchradd gan drigolion y Fro hefyd yn cynyddu.

Mae digon o le yn gyffredinol ym Mro Morgannwg i ddiwallu anghenion poblogaeth ysgolion uwchradd y dyfodol, ond mae angen adolygu'r trefniadau derbyn presennol er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion y Fro fynediad i le mewn ysgol ym Mro Morgannwg.

Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar y 5 ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg y mae'r Cyngor yn awdurdod derbyn ar eu cyfer.

## Y galw am leoedd gan y rhai sy'n byw mewn dalgylchoedd ysgolion

### Ardal y Barri

Mae’r canlynol yn gwasanaethu ardal y Barri:

- Ysgol Uwchradd Pencoedtre ac Ysgol Uwchradd Whitmore ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Saesneg.
- Ysgol Sant Richard Gwyn ar gyfer addysg enwadol
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl canlynol yn dangos y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg dros y saith mlynedd nesaf, ac eithrio plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Catholig St Helen a St Joseph, gan y rhai sy'n byw yn ardal y Barri sy'n dangos y bydd pwysau arbennig am leoedd mewn ysgolion dros y tair blynedd nesaf. Mae'r niferoedd a ragwelir yn dod o ddatblygiad Glannau'r Barri wedi'u cynnwys ar gyfer y tai hynny sydd eto i'w hadeiladu a'u meddiannu.

Rhagwelir y bydd prinder lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg hyd at y niferoedd a dderbynnir yn 2025 gan gydnabod y bydd dewis rhieni yn ffactor yn hyn o beth. Mae'r gofyniad net am leoedd mewn ysgolion hefyd yn dibynnu ar ddefnyddio'r lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a rhieni'n derbyn lleoedd yn yr ysgol honno. Efallai na fydd rhieni'n dymuno anfon eu plant i leoliad enwadol. Mae'r data'n adlewyrchu'r newid i ddalgylchoedd ysgolion y cytunwyd arnynt gan y Cabinet ac sydd ar waith o fis Medi 2021.

| | Niferoedd disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n byw yn ardal y Barri sydd angen lle mewn ysgol yn ôl grŵp oedran a blwyddyn mynediad i flwyddyn 7 yr ysgol uwchradd (ac eithrio disgyblion St Helen a St Joseph) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Derbyn** (Nifer derbyn Bl 7 2027) | **Blwyddyn 1** (Nifer derbyn Bl 7 2026) | **Blwyddyn 2** (Nifer derbyn Bl 7 2025) | **Blwyddyn 3** (Nifer derbyn Bl 7 2024) | **Blwyddyn 4** (Nifer derbyn Bl 7 2023) | **Blwyddyn 5** (Nifer derbyn Bl 7 2022) | **Blwyddyn 6** (Nifer derbyn Bl 7 2021) |
| **Dalgylch Pencoedtre** | 270 | 301 | 291 | 316 | 347 | 332 | 333 |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dalgylch Ysgol Whitmore** | 180 | 195 | 184 | 197 | 191 | 222 | 220 |
| **Datblygiad tai ar y glannau** | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 |
| **Cyfanswm disgyblion y Barri sydd angen lleoedd mewn ysgolion uwchradd** | **465** | **511** | **490** | **528** | **553** | **569** | **568** |
| **Nifer y lleoedd sydd ar gael** | | | | | | | |
| **Nifer y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Pencoedtre (210) ac Ysgol Whitmore (180)** | 390 | 390 | 390 | 390 | 390 | 390 | 390 |
| **Nifer y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Sant Richard Gwyn ar ôl ysgolion bwydo** | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 | 90 |
| **Nifer y disgyblion o'r Barri sy'n cael eu derbyn i ysgolion uwchradd eraill** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| **Cyfanswm y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion y Barri** | **510** | **510** | **510** | **510** | **510** | **510** | **510** |
| | | | | | | | |
| **Nifer dros ben+/diffyg- o ran y gofyniad lleoedd ysgol net** | +45 | -1 | +20 | -18 | -43 | -59 | -58 |

**Ardal y Bont-faen**

Mae’r canlynol yn gwasanaethu ardal y Bont-faen:

- Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg
- Ysgol Sant Richard Gwyn ar gyfer addysg enwadol
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl canlynol yn dangos y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd dros y saith mlynedd nesaf gan y rhai sy'n byw yn nalgylch y Bont-faen. Mae'r data'n adlewyrchu'r newid i ddalgylchoedd ysgolion sy'n weithredol o fis Medi 2021. Mae'r Bont-faen yn derbyn ceisiadau'n rheolaidd gan breswylwyr y tu allan i ardal Bro Morgannwg. Yn gyffredinol, mae digon o leoedd mewn ysgolion i ateb y galw yn y dyfodol gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, gan gydnabod y bydd dewis

rhieni yn ffactor yn hyn o beth. Bydd niferoedd disgyblion yn cael eu monitro ar gyfer derbyn yn 2024.

| | Niferoedd disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n byw yn ardal y Barri y mae angen lle arnynt mewn ysgol yn ôl grŵp oedran a blwyddyn mynediad i flwyddyn 7 yr ysgol uwchradd (ac eithrio disgyblion St Helen a St Joseph) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Derbyn** (Nifer derbyn Bl 7 2027) | **Blwyddyn 1** (Nifer derbyn Bl 7 2026) | **Blwyddyn 2** (Nifer derbyn Bl 7 2025) | **Blwyddyn 3** (Nifer derbyn Bl 7 2024) | **Blwyddyn 4** (Nifer derbyn Bl 7 2023) | **Blwyddyn 5** (Nifer derbyn Bl 7 2022) | **Blwyddyn 6** (Nifer derbyn Bl 7 2021) |
| **Dalgylch y Bont-faen** | 199 | 199 | 190 | 237 | 186 | 200 | 225 |
| **Datblygiadau tai a gymeradwywyd** | **20** | **20** | **20** | **20** | **20** | **20** | **20** |
| **Cyfanswm disgyblion y Bont-faen sydd angen lleoedd mewn ysgolion uwchradd** | **219** | **219** | **210** | **257** | **206** | **2203** | **245** |
| | | | | | | | |
| **Nifer y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Gyfun y Bont-faen** | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 | 240 |
| **Nifer dros ben+/diffyg- o ran y gofyniad lleoedd ysgol net** | +21 | +21 | +30 | -17 | +34 | +20 | -5 |

**<u>Ardal Llanilltud</u>**

Caiff ardal Llanilltud Fawr ei gwasanaethu gan yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Llanilltud Fawr ar gyfer addysg uwchradd cyfrwng Saesneg.
- Ysgol Sant Richard Gwyn ar gyfer addysg enwadol
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Mae'r tabl canlynol yn dangos y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd dros y saith mlynedd nesaf gan y rhai sy'n byw yn nalgylch Llanilltud Fawr. Mae'r data'n adlewyrchu'r newid i ddalgylchoedd ysgolion sy'n weithredol o fis Medi 2021.Mae digon o leoedd mewn ysgolion i ateb y galw yn y dyfodol gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, gan gydnabod y bydd dewis rhieni yn ffactor yn hyn o beth.

| | Niferoedd disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n byw yn ardal Llanilltud Fawr y mae angen lle arnynt mewn ysgol yn ôl grŵp oedran a blwyddyn mynediad i flwyddyn 7 yr ysgol uwchradd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Derbyn** (Nifer derbyn Bl 7 2027) | **Blwyddyn 1** (Nifer derbyn Bl 7 2026) | **Blwyddyn 2** (Nifer derbyn Bl 7 2025) | **Blwyddyn 3** (Nifer derbyn Bl 7 2024) | **Blwyddyn 4** (Nifer derbyn Bl 7 2023) | **Blwyddyn 5** (Nifer derbyn Bl 7 2022) | **Blwyddyn 6** (Nifer derbyn Bl 7 2021) |
| **Dalgylch Llanilltud Fawr** | 12608 | 151 | 124 | 146 | 156 | 168 | 155 |
| **Datblygiadau tai a gymeradwywyd** | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 | 15 |
| **Cyfanswm disgyblion Llanilltud Fawr sydd angen lleoedd mewn ysgolion uwchradd** | **141** | **166** | **139** | **161** | **171** | **183** | **170** |
| **Lleoedd ar gael yn Ysgol Llanilltud Fawr** | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 | 180 |
| **Nifer dros ben+/diffyg- o ran y gofyniad lleoedd ysgol net** | +39 | +14 | +41 | +19 | +9 | -3 | +10 |

## Ardal Penarth

Caiff ardal Penarth ei gwasanaethu gan yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Gyfun Sant Cyres ac Ysgol Stanwell ar gyfer addysg uwchradd gyfrwng Saesneg. Ysgol sefydledig yw Ysgol Stanwell, gyda'i hawdurdod derbyn ei hun. Mae hi wedi cadw'r meini prawf ysgolion cynradd ar gyfer derbyn i addysg uwchradd.
- Ysgol Sant Richard Gwyn ar gyfer addysg enwadol
- Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

### Ysgol Gyfun Sant Cyres

Mae'r tabl canlynol yn dangos y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd dros y saith mlynedd nesaf gan y rhai sy'n byw yn ardal Penarth sy'n gwasanaethu Ysgol Sant Cyres. Mae'r data'n adlewyrchu'r newid i ddalgylchoedd ysgolion sydd ar waith o fis Medi 2021. Mae St Cyres yn gweithredu dalgylch deuol gyda dalgylch Stanwell yn cwmpasu ardaloedd Penarth a Sili. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion o fewn dalgylch Stanwell yn debygol o barhau i fynychu Ysgol Stanwell ac ni fydd y newid yn cael effaith fawr ar Ysgol Sant Cyres. Mae digon o leoedd mewn ysgolion i ateb y galw yn y dyfodol gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, gan gydnabod y bydd dewis rhieni yn ffactor yn hyn o beth.

| | Niferoedd disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n byw yn ardal Sant Cyres y mae angen lle arnynt mewn ysgol yn ôl grŵp oedran a blwyddyn mynediad i flwyddyn 7 yr ysgol uwchradd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Derbyn** (Nifer derbyn Bl 7 2027) | **Blwyddyn 1** (Nifer derbyn Bl 7 2026) | **Blwyddyn 2** (Nifer derbyn Bl 7 2025) | **Blwyddyn 3** (Nifer derbyn Bl 7 2024) | **Blwyddyn 4** (Nifer derbyn Bl 7 2023) | **Blwyddyn 5** (Nifer derbyn Bl 7 2022) | **Blwyddyn 6** (Nifer derbyn Bl 7 2021) |
| **Dalgylch Sant Cyres (sy'n cynnwys dalgylch deuol Ysgol Stanwell)** | 3598 | 374 | 393 | 372 | 379 | 383 | 398 |
| **Datblygiadau tai a gymeradwywyd** | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| **Ac eithrio Dalgylch Ysgol Stanwell** | -196 | -201 | -222 | -195 | -217 | -242 | -234 |
| **Cyfanswm disgyblion Sant Cyres sydd angen lleoedd mewn ysgolion uwchradd** | **171** | **181** | **179** | **185** | **170** | **149** | **172** |
| **Nifer y lleoedd sydd ar gael yn Sant Cyres** | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 |
| **Nifer dros ben+/diffyg- o ran y gofyniad lleoedd ysgol net** | +39 | +29 | +31 | +25 | +40 | +61 | +38 |

**Ysgol Stanwell**

Mae'r tabl canlynol yn dangos y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd dros y saith mlynedd nesaf gan y rhai sy'n byw yn ardal Penarth sy'n gwasanaethu Ysgol Stanwell. Mae'r data'n adlewyrchu'r newid i ddalgylchoedd ysgolion sydd ar waith o fis Medi 2021 gydag Ysgol Cyres yn gweithredu dalgylch deuol gyda dalgylch Ysgol Stanwell sy'n cwmpasu ardaloedd Penarth a Sili. Mae digon o leoedd mewn ysgolion i ateb y galw yn y dyfodol gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, gan gydnabod y bydd dewis rhieni yn ffactor yn hyn o beth.

| | Niferoedd disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg sy'n byw yn ardal Ysgol Stanwell y mae angen lle arnynt mewn ysgol yn ôl grŵp oedran a blwyddyn mynediad i flwyddyn 7 yr ysgol uwchradd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Derbyn** (Nifer derbyn Bl 7 2027) | **Blwyddyn 1** (Nifer derbyn Bl 7 2026) | **Blwyddyn 2** (Nifer derbyn Bl 7 2025) | **Blwyddyn 3** (Nifer derbyn Bl 7 2024) | **Blwyddyn 4** (Nifer derbyn Bl 7 2023) | **Blwyddyn 5** (Nifer derbyn Bl 7 2022) | **Blwyddyn 6** (Nifer derbyn Bl 7 2021) |
| **Dalgylch Ysgol Stanwell** | 196 | 201 | 222 | 195 | 217 | 242 | 234 |
| **Datblygiadau tai a gymeradwywyd** | 13 | 13 | 13 | 13 | 12 | 12 | 12 |
| **Cyfanswm disgyblion Ysgol Stanwell sydd angen lleoedd mewn ysgolion uwchradd** | **209** | **214** | **235** | **208** | **229** | **254** | **246** |
| **Nifer y lleoedd sydd ar gael yn Ysgol Stanwell** | 299 | 299 | 299 | 299 | 299 | 299 | 299 |
| **Nifer dros ben+/diffyg- o ran y gofyniad lleoedd ysgol net** | +90 | +85 | +64 | +91 | +70 | +45 | +53 |

## Heriau lleoedd ysgol

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor garfannau Blwyddyn 6 cyfrwng Saesneg mawr a fydd yn pontio i'r sector uwchradd o 2021 ymlaen gan roi pwysau ar y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y dyfodol. Mae hyn yn fwy amlwg yn ardal y Barri lle mae sefydlu addysg gymysg wedi newid galw a dewis rhieni yn sylweddol, ynghyd â'r disgyblion ychwanegol sy'n deillio o Ddatblygiad Glannau'r Barri.

Mae'r Cyngor wedi newid o system ysgolion bwydo i system ddalgylchoedd ar gyfer derbyn disgyblion i addysg uwchradd o fis Medi 2020, gan flaenoriaethu lleoedd i'r rhai sy'n byw o fewn dalgylch. Mae hyn hefyd wedi cael effaith ar y galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd.

Gwnaed diwygiadau i ddalgylchoedd ar gyfer mis Medi 2021 fel a ganlyn:

### Ardal y Barri

**Ysgol Uwchradd Pencoedtre**

- Trosglwyddo ardal Gwenfô i ddalgylch Ysgol Gyfun Sant Cyres.

**Ysgol Uwchradd Whitmore**

- Diddymu statws dalgylch deuol y Rhws ac Ysgol Uwchradd Whitmore.
- Trosglwyddo ardal y Rhws i Ysgol Gyfun y Bont-faen.

### Ardal y Bont-faen

**Ysgol Gyfun y Bont-faen**

- Cynyddu poblogaeth dalgylch yr ysgol trwy gynnwys ardal y Rhws yn nalgylch yr ysgol.

### Ardal Llanilltud

**Ysgol Llanilltud Fawr**

- Diddymu statws dalgylch deuol y Rhws ac Ysgol Llanilltud Fawr.
- Trosglwyddo ardal y Rhws i ddalgylch y Bont-faen.

### Ardal Penarth

**Ysgol Gyfun Sant Cyres**

- Cynyddu poblogaeth dalgylch yr ysgol trwy gynnwys ardaloedd Gwenfô, Penarth a Sili yn nalgylch yr ysgol.

Mae'r newidiadau uchod i ddalgylchoedd yn cefnogi'r galw yn y rhan fwyaf o ardaloedd ond mae galw mawr yn y Barri o hyd, nid yn unig o ganlyniad i addysg gymysg ond hefyd oherwydd y datblygiad sylweddol sydd ar waith yng Nglannau'r Barri.

**Ardal y Barri**

Mae poblogaeth ardal y Barri yn ddwys, yn arbennig yn y dwyrain. Mae poblogaeth dalgylchoedd y ddwy ysgol cyfrwng Saesneg yn fawr, lle byddai'r galw uchaf posibl am leoedd ym mlwyddyn 7 o fewn y dalgylch, gan eithrio dewisiadau rhieni, yn uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael i ddisgyblion dros y 4 blynedd nesaf. Rhagfynegir y bydd datblygiadau tai yn dod â 105 o ddisgyblion cynradd cyfrwng Saesneg ychwanegol i bob dalgylch.

**Ardal y Bont-faen**

Er bod y dalgylch wedi'i ailfodelu o fis Medi 2021 i gynnwys ardal y Rhws, mae poblogaeth y dalgylchoedd uwchradd yn dal yn llai na nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael ac ar gyfer gofynion derbyn/nifer derbyn. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn llawn ac atebir y galw gan ddisgyblion sy'n mynychu ac sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a'r tu allan i ardal Bro Morgannwg. Gall dalgylch y Bont-faen ddarparu ar gyfer y galw yn y dyfodol o fewn dalgylch yr ysgol ac nid oes angen ei addasu ymhellach.

**Ardal Llanilltud Fawr**

Mae dalgylch Ysgol Llanilltud Fawr yn cael ei ailfodelu o fis Medi gan dynnu statws dalgylch deuol y Rhws oddi ar yr ysgol a'i drosglwyddo i ddalgylch y Bont-faen. Mae'r galw oddi mewn y dalgylchoedd presennol yn llai na'r nifer y gall yr ysgol ei dderbyn. Gall dalgylch Llanilltud Fawr ddarparu ar gyfer y galw yn y dyfodol o fewn dalgylch yr ysgol ac nid oes angen ei addasu ymhellach.

**Penarth**

Caiff Sant Cyres ei hailfodeli o fis Medi 2021 ac mae bellach yn cynnwys dalgylch Gwenfô yn ogystal â gweithredu dalgylch deuol gyda dalgylch Stanwell i gwmpasu ardal Penarth ac ardal Sili. Mae mwyafrif y disgyblion o fewn dalgylch Stanwell yn debygol o barhau i fynychu Ysgol Stanwell ac felly mae'r newid yn annhebygol o gael unrhyw effaith wirioneddol ar niferoedd yn Ysgol Sant Cyres ond mae'n sicrhau y bydd disgyblion Penarth yn ennill lle lleol yn y naill ysgol neu'r llall.

Mae data dalgylch Ysgol Sant Cyres ac eithrio ffigurau Stanwell yn dal yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a’r gofynion o ran nifer y disgyblion a dderbynnir ym Mlwyddyn 7. Mae'r ysgol yn cyrraedd ei nifer derbyn wrth dderbyn Blwyddyn 7 gyda'r galw'n cael ei ateb o'r tu allan i'r dalgylch ac yn bennaf o ardal Caerdydd.

Mae poblogaeth dalgylch Ysgol Uwchradd Stanwell yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a’r gofynion o ran nifer y disgyblion a dderbynnir ac nid oes angen ei addasu ymhellach.

Mae poblogaeth fach y dalgylch ar hyn o bryd yn golygu y caiff nifer o ddisgyblion o’r tu allan i’r dalgylch le ar sail agosrwydd. Mae rhai ardaloedd yng Nghaerdydd yn agosach i’r ysgolion nag ardaloedd eraill ym Mro Morgannwg.

## Opsiwn i Fynd i'r Afael â Heriau Lleoedd Ysgol mewn Dalgylchoedd

Gellir bodloni'r galw am leoedd Blwyddyn 7 yn y dyfodol ar gyfer disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gyfun y Bont-faen, Ysgol Llanilltud Fawr, Ysgol Stanwell ac Ysgol Sant Cyres. Mae cyfle i addasu rhai o'r ardaloedd hyn i liniaru'r galw mewn ardaloedd eraill.

Bydd statws dalgylch deuol Stanwell a Sant Cyres o fis Medi 2021 yn sicrhau y bydd plant lleol Penarth yn ennill lleoedd yn y naill ysgol neu'r llall.

Yr ardal sy'n peri pryder yw ardal y Barri lle mae'r niferoedd sy'n byw yn nalgylchoedd ysgolion Whitmore a Phencoedtre yn fwy na'r lleoedd sydd ar gael yn yr ardal yn y tymor byr, gan gydnabod y bydd dewis rhieni yn ffactor yn hyn o beth. Mae'r mater yn fwy perthnasol i’r niferoedd yn nalgylch Pencoedtre. Cafwyd mwy o alw yn ardal y Barri am leoedd yn ysgolion uwchradd Pencoedtre a Whitmore dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn bennaf o ganlyniad i sefydlu ysgolion cydaddysgol yn y Barri o fis Medi 2018.

Mae nifer o rieni'r Barri yn mynegi eu bod yn ffafrio Ysgol Sant Cyres bob blwyddyn. Daw hyn yn bennaf gan rieni y mae eu plant yn debygol o fynychu ysgolion cynradd ym Mhenarth a Dinas Powys ac a fyddai wedi cael eu derbyn i Ysgol Sant Cyres o dan drefniadau ysgol fwydo blaenorol. Mae tua dwy ran o dair o'r disgyblion hyn yn byw yn nalgylch Pencoedtre. Nid yw'r rhieni hyn bellach yn cael lleoedd yn Ysgol Sant Cyres trwy'r system fwydo pan mae’r ysgol wedi’i gordanysgrifio. Fel arfer, caiff ceisiadau eu hystyried ar sail agosrwydd. Felly bydd nifer o blant Caerdydd yn parhau i ennill lleoedd yn Ysgol Sant Cyres ar sail agosrwydd gan eu bod yn byw yn nes at yr ysgol na'r rhai sy'n byw yn y Barri.

Arweiniodd y galw yn y Barri ar gyfer Medi 2020 at yr angen i sefydlu dosbarth ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Whitmore i ddarparu ar gyfer y disgyblion hynny sy’n byw yn y Barri ond sydd heb le mewn ysgol. Mae'n bosibl y byddai’r angen am ddosbarth ychwanegol wedi'i osgoi pe bai blaenoriaeth am leoedd mewn mannau eraill ar gael i drigolion y Barri. Ni fydd dosbarth ychwanegol yn opsiwn yn y dyfodol oherwydd pryderon ynghylch diffyg lle mewn ysgolion. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gydag Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn i wneud defnydd llawn o gapasiti’r ysgol.

Mae'r Cyngor yn cydlynu trefniadau derbyn ar gyfer Ysgol Sant Richard Gwyn ar ffurf treial a rhagwelir y bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r broses hon.

Mae digon o le yn gyffredinol ym Mro Morgannwg i ddiwallu anghenion poblogaeth ysgolion uwchradd y dyfodol, ond mae angen adolygu'r trefniadau derbyn presennol er mwyn sicrhau bod gan ddisgyblion y Fro fynediad i le mewn ysgol ym Mro Morgannwg.

## Y Ffordd Ymlaen a Ffefrir

Er mwyn sicrhau digon o leoedd i ateb y galw am le mewn ysgolion uwchradd yn y Barri a'r ardal gyfagos yn well, y ffordd orau ymlaen yw cyflwyno dalgylch deuol i Ysgol Sant Cyres i gynnwys dalgylch Ysgol Uwchradd Pencoedtre. Trefniant dros dro fyddai hyn am dair blynedd o fis Medi 2020 i fis Gorffennaf 2025 i reoli'r galw o ganlyniad i garfannau Blwyddyn 6 mawr yn pontio i addysg uwchradd, sy'n fwy na'r lle sydd ar gael yn ysgolion yr ardal. O fis Medi 2025 bydd dalgylchoedd yn dychwelyd i fod yn ddalgylchoedd unigol wrth i'r carfannau Blwyddyn 6 sy'n pontio i addysg uwchradd ym Mro Morgannwg leihau a gellir bodloni galw'r dalgylchoedd mewn ysgolion lleol.

Mae dalgylch deuol yn cyfeirio at ardal sy'n gwasanaethu mwy nag un ysgol. Byddai'r cynnig yn cynnwys dalgylch Ysgol Uwchradd Pencoedtre yn nalgylch Sant Cyres. Byddai Pencoedtre yn parhau i weithredu a gwasanaethu ei dalgylch presennol.

Byddai dalgylch deuol yn rhoi mwy o gyfle i gronfa ehangach o ymgeiswyr gael lle yn yr ysgol o'u dewis, er ei bod o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig. Byddai'r dalgylch deuol yn sicrhau bod plant y Fro yn cael lle mewn ysgol yn y Fro.

Mae gan Ysgol Pencoedtre niferoedd dalgylch uchel iawn a fydd yn symud ymlaen i addysg uwchradd yn y dyfodol. Mae nifer o rieni yn y Barri yn nodi eu bod yn ffafrio Ysgol Sant Cyres, yn enwedig lle mae eu plant yn mynychu ysgolion cynradd Penarth a Dinas Powys. Nid yw'r rhieni hyn bellach yn cael lleoedd, ar wahân i drwy gysylltiadau brodyr a chwiorydd, yn Ysgol Sant Cyres pan fydd yr ysgol wedi'i gordanysgrifio. Mae hyn yn rhoi pwysau yn ôl ar ysgolion uwchradd y Barri i ddarparu lleoedd ysgol i'r disgyblion hyn. Felly, byddai dalgylch deuol gydag Ysgol Sant Cyres yn galluogi'r dewis mwyaf posibl gan rieni yn ogystal â chefnogi disgyblion y Fro i sicrhau eu bod yn cael cynnig lle mewn ysgol uwchradd yn y Fro.

Mae nifer y plant sy'n byw yn nalgylchoedd y Barri sy'n mynychu ysgolion bwydo blaenorol Ysgol Sant Cyres fel a ganlyn ar gyfer y tair blynedd o bwysau yn ardal y Barri.

| | | **Plant sy'n mynychu ysgolion bwydo blaenorol Sant Cyres sy'n byw yn nalgylchoedd y Barri** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Blwyddyn 5 (Nifer a dderbynnir ym Mlwyddyn 7 2022)** | **Blwyddyn 4 (Nifer a dderbynnir ym Mlwyddyn 7 2023)** | **Blwyddyn 3 (Nifer a dderbynnir ym Mlwyddyn 7 2024)** |
| Dalgylch Pencoedtre | | 26 | 25 | 19 |
| Dalgylch Ysgol Whitmore | | 2 | 3 | 4 |
| Cyfanswm | | 28 | 28 | 3 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y lleoedd sydd ar gael yn y Barri ar gyfer y blynyddoedd dan sylw | | -59 | -43 | -18 |

Mae'r tabl uchod yn dangos nad oes digon o leoedd yn ardal y Barri ar gyfer y blynyddoedd dan sylw. Mae dalgylch deuol yn debygol o alluogi’r plant hynny yn y Barri mewn ysgolion bwydo blaenorol i ennill lleoedd a fyddai'n lleddfu'r pwysau am leoedd yn ardal y Barri.

**Manteision**

Byddai'r cynnig yn cefnogi'r gwaith o reoli'r galw am leoedd mewn ysgolion yn ardal y Barri ac yn darparu cronfa ehangach o ymgeiswyr ar gyfer ysgolion. Byddai hefyd yn rhoi rhywfaint o gymorth i rieni a ddewisodd ysgol gynradd benodol yn rhannol oherwydd ei statws bwydo. Roedd hyn yn peri pryder sylweddol i rai rhieni yn ystod yr ymgynghoriad ar gael gwared ar ysgolion bwydo.

**Anfanteision**

Gall dalgylch deuol Ysgol Sant Cyres ddenu ceisiadau i ysgol ymhellach i ffwrdd na'r ysgol ddalgylch bresennol (e.e. preswylydd o'r Barri yn gwneud cais am le yn Sant Cyres) a fyddai'n arwain at fwy o ordanysgrifio wrth weithredu meini prawf gordanysgrifio uwchradd y Cyngor. Fodd bynnag, gan fod nifer y disgyblion yn y dalgylch deuol yn uchel ar y cyfan, byddai angen lleoedd hyd at nifer derbyn yr ysgol yn y ddwy ysgol yn y dyfodol i ateb y galw am leoedd o ardal y Barri.


Byddai gan y cynnig oblygiadau o ran trafnidiaeth ysgol i ddisgyblion uwchradd sy'n byw tair milltir neu fwy i'r ysgol ddalgylch agosaf.  Amcangyfrifir y byddai cost gofynion trafnidiaeth ychwanegol oddeutu £31,000 y flwyddyn ar gyfer cerbyd â 35/53 sedd, gan godi o bosibl i £62,000 dros gyfnod cychwynnol o bedair blynedd wrth i nifer y disgyblion sydd angen trafnidiaeth gynyddu bob blwyddyn.

**Mapiau Dalgylchoedd Cyfredol ac Arfaethedig ar gyfer Ysgolion Pencoedtre a Sant Cyres**

Dalgylch Cyfredol Pencoedtre



Dalgylch Cyfredol Sant Cyres



Dalgylch Deuol Arfaethedig ar gyfer Sant Cyres

